5.

Dau’n cerdded, un hwyrddydd,
O hen ddinas Dafydd
I Emaus, heibio’r meysydd,
Ar hyd hewlydd hir,

A’u sgwrs sy’n llawn bwrlwm,
Iesu yw’r rheswm,
A’i farw fel offrwm,
Mae cyffro’n y tir.

A daw i gerdded gyda’r ddau
Un arall, wrth i’r dydd fyrhau,
A’i wahodd e, a hi’n hwyrhau, i mewn,
Mae’r ddau’n mynnu.

Wrth dorri bara’n ddarnau mân
Y cwbl, hwn, sy’n glir o’u bla’n,
Ac mae calonnau dau ar dân,

A’r newydd da’n
Lledaenu.